# Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

**2016 dccc 6**

## RHAN 3

FFURFLENNI TRETH, YMHOLIADAU AC ASESIADAU

## PENNOD 2

DYLETSWYDDAU [F1]... I GADW COFNODION A'U STORIO'N DDIOGEL

### [[F1]38A Dyletswydd i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel: trafodiadau tir nad oes angen dychwelyd ffurflen dreth mewn cysylltiad â hwy

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad tir, ac eithrio trafodiad o fath a restrir yn adran 65(4) o DTTT, nad yw'n ofynnol dychwelyd ffurflen dreth mewn cysylltiad ag ef.

(2) Rhaid i'r prynwr mewn trafodiad tir y mae'r adran hon yn gymwys iddo—

- (a) cadw unrhyw gofnodion y gall fod eu hangen i alluogi'r prynwr i ddangos nad yw'n ofynnol dychwelyd ffurflen dreth, a
- (b) storio unrhyw gofnodion y gall fod eu hangen at y diben hwnnw yn ddiogel.

(3) Rhaid storio'r cofnodion yn ddiogel hyd ddiwedd y dyddiad perthnasol.

(4) Y "dyddiad perthnasol" yw chwe mlynedd i'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

(5) Ond os yw ACC yn pennu dyddiad cynharach o dan yr is-adran hon, y "dyddiad perthnasol" yw'r dyddiad a bennir.

(6) Caniateir pennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol o dan is-adran (5).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 38A. (See end of Document for details)*

(7) Yn is-adran (4), mae i'r "dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith" yr un ystyr ag yn DTTT.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 38A wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (anaw 1), a. 81(2)(3), **Atod. 23 para. 6**; O.S. 2018/34, ergl. 3

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Adran 38A.